# Gwybodaeth heb ei ryddhau

Dymuna'r **Atom** ddiolch yn ddiffuant i Lywodraeth Cymru a'i swyddogion am eu cefnogaeth barhaus ac i dref Gaerfyrddin a'i phobl am gefnogi'r ganolfan yn ystod y cyfnod sefydlu. Hyderwn y bydd modd adeiladu ar lwyddiannau'r deunaw mis diwethaf drwy ddatblygu ystod pellach o wasanaethau a digwyddiadau Cymraeg fel rhan o'r broses barhaus o Gymreigio tref Caerfyrddin.

[redacted]



[redacted]

## ATODIAD 1

## AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL PWYLLGOR STRATEGOL YR ATOM

### Aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor Strategol

(a) Aelodaeth y Pwyllgor Strategol

**Cynrychiolwyr YDDS**

*Hywel Davies*

*Angharad Harding*

*Gwilym Dyfri Jones*

*Dr. Lowri Lloyd*

*Gwydion Wynne*

**Cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr, YDDS**

*Dan Rowbotham*

**Cynrychiolydd Menter Gorllewin Sir Gâr**

*Dewi Snelson*

**Cynrychiolydd yr Urdd**

*Dai Bryer*

**Cynrychiolydd Cyngor Tref Caerfyrddin**

*Y Cyngh. Angharad Jones Leefe*

**Cynrychiolydd Cyngor Sir Caerfyrddin**

*Gwyneth Ayres*

**Arbenigwr yn y maes cynllunio ieithyddol**

*Dr. Dylan Phillips*

[redacted]

**(b) <u>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Strategol</u>**

(i) Cytuno ar gyfeiriad strategol i'r Atom yn y byr-dymor a'r hir-dymor.
(ii) Derbyn adroddiadau cynnydd ynghylch Yr Atom ymhob cyfarfod.
(iii) Ystyried a chymeradwyo Cynllun Strategol Yr Atom yn flynyddol.
(iv) Monitro'r modd y gweithredir y Cynllun Strategol gan Bwyllgor Gweithredol Yr Atom.
(v) Ystyried a mabwysiadu arferion da yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, lle bo hynny'n briodol.
(vi) Adnabod risgiau ynghyd â dulliau o'u goresgyn.

[redacted]

[redacted]




[redacted]

## Atodiad 2


## Gwybodaeth heb ei ryddhau

## ATODIAD 3

## PAMFFLED FARCHNATA YN CRYNHOI'R 6 MIS CYNTAF



[redacted]




[redacted]

[redacted]

# Y DYFODOL
# THE FUTURE

I'r dyfodol, mae yna gynlluniau pendant i gydweithio'n strategol gyda chlwstwr o ysgolion yn yr ardal er mwyn trefnu sesiynau Cymraeg i rieni. Yn fwy na chynnig sesiynau dysgu iaith i rieni, bydd cyfle i rieni gael cymorth mwy sylfaenol wrth ddarllen gyda'u plant, a chynnig cefnogaeth sy'n cyd-fynd â datblygiad ieithyddol eu plentyn yn yr ysgol.

*There are definitive plans to work strategically with a cluster of schools in the area in order to organise Welsh language sessions for parents. More than just offering language learning sessions for parents, there will be an opportunity for parents to have more fundamental help with reading with their children, and to offer support that matches their child's linguistic development at school.*




Sefydlu cysylltiadau cadarn gydag ystod o fusnesau yn y dref er mwyn darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith, cyrsiau gwasanaeth cwsmer a chymorth ymarferol gyda'r Gymraeg, gyda chefnogaeth Menter Gorllewin Sir Gâr.

Y bwriad yw targedu busnesau mawr a bychain y dref fesul stryd gan ddechrau gyda Stryd y Brenin.

*Establish strong links with a range of businesses in the town in order to provide language awareness sessions, customer service courses and practical help with Welsh, with the support of Menter Gorllewin Sir Gâr.*

*The intention is to target large and small businesses throughout the town, beginning with King Street.*




Sefydlu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith.

*Establish a series of events for junior and secondary pupils in partnership with the Menter Iaith.*



Sefydlu Pwyllgor Llywio Gweithgareddau'r Atom ag iddo nifer o is-bwyllgorau gweithgar er mwyn annog perchnogaeth gymunedol o ddigwyddiadau'r Atom, e.e. pwyllgor ieuenctid, pwyllgor y Gymraeg a'r gweithle, pwyllgor dysgu'r Gymraeg.

*Establish a Steering Committee for Yr Atom activities with several sub-committees in order to encourage community ownership of activities at Yr Atom, e.g. a youth committee, Welsh and the workplace committee, learning Welsh committee.*

[redacted]

[redacted]

## BWRLWM CYMDEITHASOL ADIWYLLIANNOL/ SOCIAL AND CULTURAL BUZZ

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn trefnu sesiynau wythnosol yn Yr Atom sef Yoga o dan ofal Laura Karadog a Dawnsio Stryd, o dan arweiniad Angharad James.

Mae Aelwyd Myrddin yn cyfarfod yn Yr Atom bob nos Wener o dan adain Urdd Gobaith Cymru a Menter Gorllewin Sir Gâr, a bu Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi yma ar nosweithiau Mercher rhwng Ionawr ac Ebrill.

*Menter Gorllewin Sir Gâr organises weekly yoga sessions in Yr Atom led by Laura Karadog, and Street Dancing led by Angharad James.*

*Every Friday evening Aelwyd Myrddin meets under the auspices of Urdd Gobaith Cymru and Menter Gorllewin Sir Gâr, and Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi met here on Wednesday evenings from January to April.*

Mae Merched y Wawr Rhanbarth Sir Gâr a Changen Caerfyrddin yn cwrdd yma yn gyson ac rydym wedi croesawu Clwb Gwawr Caerfyrddin i'r Atom. Mae canghennau eraill hefyd wedi ymweld â'r ganolfan ar wibdaith yn ogystal â Chlwb Carafanwyr Cymru.

Mae sesiynau llofnodi llyfrau hefyd wedi eu cynnal yn y Caffi.

*The Carmarthenshire Region and the Carmarthen Branch of Merched y Wawr meet here regularly and we have welcomed the Carmarthen Branch of Clwb Gwawr to Yr Atom. Other branches have also visited the centre, as well as the Wales Caravan Club.*



*Book signing sessions have also been held in Caffi'r Atom.*

Un o uchafbwyntiau'r Pasg oedd ein sesiwn cyfnewid sticeri pêl-droed.

Mae Cymraeg i Oedolion y de-orllewin wedi cynnal sawl noson gymdeithasol yma.

Fis Medi, bu'r Atom yn derbyn nwyddau ar gyfer ffoaduriaid.

*One of the highlights of Easter was our football stickers exchange session.*

*Welsh for Adults in south west Wales has held several social evenings here.*

*In September Yr Atom accepted items for refugees.*

Braf oedd croesawu Mari Lisa i'r Atom ar gyfer noson i'w llongyfarch ar ennill Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau. Trefnwyd y noson gan Gapel y Priordy ac Ysgol Farddol Caerfyrddin.

Mae myfyrwyr Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi cynnal digwyddiadau yn Yr Atom. Cynhaliodd myfyrwyr y brifysgol Noson Lawen yma ar drothwy'r Nadolig.

*It was a pleasure to welcome Mari Lisa to Yr Atom for an evening to congratulate her on winning the Daniel Owen Memorial Prize at the Montgomeryshire and the Marches National Eisteddfod. The evening was organised by Capel y Priordy and Ysgol Farddol Caerfyrddin.*

*Students from Coleg Sir Gâr and University of Wales Trinity Saint David have held events at Yr Atom. Students at the University held a Noson Lawen (variety show) here just before Christmas.*



[redacted]

[redacted]

# ADDYSG
# EDUCATION

**Mae gwersi Cymraeg i Oedolion yn cael eu cynnal yn Yr Atom yn ddyddiol.**

**Welsh for Adults lessons are held daily at Yr Atom.**



Mae amrywiol ddosbarthiadau o ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal wedi ymweld â'r ganolfan. Lansiwyd Siarter Iaith Sir Gâr yn Yr Atom fis Rhagfyr.

*A variety of classes from both junior and secondary schools in the area have visited the centre. The Carmarthenshire Language Charter was launched here in Yr Atom in December.*

Cynhaliodd Ysgol Farddol Caerfyrddin sesiynau cynganeddu yma fis Ionawr.

*Ysgol Farddol Caerfyrddin held sessions on cynghanedd here in January.*


Dros gyfnod y Pasg, cynhaliwyd sesiwn newyddiadurol yn Yr Atom o dan arweiniad gohebydd BBC Cymru Aled Scourfield.

*Over the Easter period a journalism session was held at Yr Atom led by BBC Cymru correspondent Aled Scourfield.*



Mae Marc Griffiths wedi cynnal gweithdai yn y stiwdio radio ac wedi bod yn cyd-weithio â myfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

*Marc Griffiths has held workshops in the radio studio and has been working with University of Wales Trinity Saint David students.*



Cynhelir gwersi Ffrangeg hwyliog yma fis Mai, a bydd menter newydd yn cwrdd yn Yr Atom yn fisol, sef Geiriau'r Gair, o dan ofal Esgobaeth Tyddewi. Y nod yw rhoi help llaw i offeiriadon a gweinidogion sydd am gael gwell dealltwriaeth o'r Gymraeg o fewn yr Eglwys yng Nghymru.

*Fun French lessons will be held here in May, and a new initiative will meet in Yr Atom monthly, i.e. Geiriau'r Gair under the auspices of the Diocese of St David's. The aim is to give assistance to priests and ministers who wish to have a better understanding of Welsh within the Church in Wales.*

[redacted]



[redacted]

[redacted]

Cwblhawyd y gwaith adeiladu yn Yr Atom ym mis Medi 2015, ac fe agorwyd y ganolfan yn swyddogol ar Hydref y 15fed gan y Prif Weinidog Carwyn Jones.

Agorodd Caffi'r Atom ei ddrysau fis Awst 2015, a bellach mae'r Caffi wedi ennill ei le ar restr Wales Online o'r llefydd gorau i fwyta yn Sir Gâr.

*Building work in Yr Atom was completed in September 2015, and the centre was officially opened on 15th October 2015 by the First Minister Carwyn Jones.*

*Caffi'r Atom opened its doors in August 2015, and the Caffi has now gained a place on the Wales Online list of the best places to eat in Carmarthenshire.*



Mae dros 50 o fudiadau, cwmniau neu sefydliadau wedi defnyddio cyfleusterau'r Atom yn y chwe mis cyntaf.

*More than 50 organisations, companies or institutions have used Yr Atom's facilities during the first six months.*

Mae'r Atom wedi bod yn cydweithio â Menter Gorllewin Sir Gâr ac wedi cynnal sawl digwyddiad llwyddiannus, o groto Siôn Corn i'r Ffair Nadolig, a nosweithiau cymdeithasol i deuluoedd.

*Yr Atom has been working with Menter Gorllewin Sir Gâr and has held a number of successful events, from Santa Claus' grotto to the Christmas Fair, and social evenings for families.*

## TROSGLWYDDO'R IAITH A DEFNYDD Y GYMRAEG O FEWN Y TEULU / LANGUAGE TRANSFER AND THE USE OF WELSH WITHIN THE FAMILY

Mae'n gartref i Gylch Meithrin Myrddin. Cynhelir y Cylch yma bob bore, yn ogystal â sesiynau Ti a Fi.

*It is home to Cylch Meithrin Myrddin. The Cylch is held here each morning, as well as Ti a Fi sessions.*

Cynhaliwyd dwy sioe hanesyddol Mewn Cymeriad yma ar gyfer disgyblion cynradd gyda sioe Harri Tudur yn rhan o weithgareddau'r Atom ar ddiwrnod Parêd Dewi Sant Caerfyrddin. Darparwyd adloniant gan Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi a disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Cydweithiwyd â Chyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Caerfyrddin yn ystod Wythnos Gŵyl Dewi.

*Two historical 'In Character' shows were held here for junior school pupils with the Henry Tudor show being part of Yr Atom's activities on the day of the Carmarthen St David's Parade. Entertainment was provided by Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi and pupils of Ysgol Gymraeg Bro Myrddin. Yr Atom cooperated with Carmarthenshire County Council and Carmarthen Town Council during the week of St David's Day.*

Yn ystod gwyliau'r Pasg, daeth dros 200 i'r Atom ar gyfer Sesiwn Stori Sali Mali a drefnwyd gan Fenter Gorllewin Sir Gâr.

Digwyddiad poblogaidd arall oedd Ffair Twf yn ystod tymor yr hydref gyda'r ystafelloedd i lawr grisiau yn orlawn. Roedd sesiynau tylino babi Twf a gynhaliwyd yma'n wythnosol hefyd yn boblogaidd tu hwnt.

*During the Easter holidays over 200 attended Yr Atom for a Sali Mali Story Session that was organised by Menter Gorllewin Sir Gâr.*

*Another popular event was the Twf Fair during the Autumn term with the downstairs rooms full to the brim. The Twf baby massage sessions that were held here weekly were also very popular.*



[redacted]



[redacted]